

# S4C/

## S4C I BAWB
## EVERYONE'S S4C

## ADLEWYRCHU CYMRU

STRATEGAETH AMRYWIAETH, CYNHWYSIANT A CHYDRADDOLDEB S4C 2022-27

Mae llawer wedi newid ers cyhoeddi ein hymrwymiad amrywiaeth cyntaf (Ymrwymiad Amrywiaeth S4C 2018-2021).

Mae nifer o ddigwyddiadau byd-eang wedi dod â'r anghydraddoldeb sydd wedi bodoli ers cymaint o amser i flaen meddwl ac ymwybyddiaeth y sector a'r cyhoedd. Nid yw anghydraddoldeb cymdeithasol yn rhywbeth newydd, ond mae'r egni am newid eang yn ffres.

Dyma Strategaeth Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chydraddoldeb S4C 2022-2027. **Adlewyrchu Cymru** yw'r nod ac mae pedair thema:

## Ein Gweithlu Ni

Mae'r adran hon o'r strategaeth yn mynd i'r afael â sut y byddwn ni'n sicrhau bod staff S4C yn cynrychioli Cymru.

## Cynnwys Pawb

Mae amrywiaeth o gynrychiolaeth yng nghynnwys S4C yn rhan bwysig o'r gwaith yma. Yn y strategaeth, mae rhai o'r camau penodol bydd S4C yn cymryd i sicrhau hyn.

## Y Sector

Rydym am i'r cwmnïau sy'n gwneud cynnwys i ni adlewyrchu Cymru yn ei chyfanrwydd. Mae'r adran hon o'r strategaeth yn amlinellu sut bydd S4C yn annog a chefnogi'r sector i wneud hyn.

## Arwain a Chydweithio

Mae partneriaeth yn rhan hanfodol o unrhyw waith sy'n gweithio tuag at gynyddu amrywiaeth a gwella cynhwysiant. Mae'r adran hon o'r strategaeth yn edrych ar sut bydd S4C yn cydweithio â sefydliadau eraill ac yn arwain y ffordd yn y sector darlledu yng Nghymru.





*FFLAM*

Mali Ann Rees
fel Malan


Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at grwpiau neu gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector darlledu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys nodweddion gwarchodedig, fel hil ac ethnigrwydd, anabledd, rhywedd, rhywioldeb a mwy; a phethau tu hwnt i'r rheini, fel cefndir economaidd-gymdeithasol ac iaith.

Mae S4C yn ymrwymo'n llwyr i'r cysyniad o groestoriadedd (*intersectionality*)[1] ac yn gweithio i sicrhau fod amrywiaeth yn cynnwys cynifer o nodweddion a hunaniaethau â phosib. Bydd data poblogaeth mwy cyfredol yn dod i'r amlwg yn ystod cyfnod y ddogfen hon gyda chyhoeddi ystadegau Cyfrifiad 2021 a byddwn yn ystyried hyn wrth weithredu'r strategaeth a'i blaenoriaethau.

Yn y cyfamser fe wyddwn ni, er enghraifft, fod o leiaf 5% o boblogaeth Cymru'n Ddu, Asiaidd neu'n lleiafrif ethnig; a bod o leiaf 22% o boblogaeth Cymru oed 16-64 yn anabl.[1] Er mwyn sicrhau gwell adlewyrchiad o boblogaeth Cymru, mae rhai blaenoriaethau gan S4C ar gyfer y strategaeth hon, sef cynrychiolaeth ar y sgrin ac yn y sector darlledu o amrywiaeth anabledd, amrywiaeth hil ac ethnigrwydd, ac amrywiaeth o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol.

Bydd y Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant yn adolygu'r strategaeth yn flynyddol, gan ei diweddaru pan fo angen ar sail unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau perthnasol. Bydd S4C yn cyhoeddi adroddiad ar y strategaeth yn flynyddol.

Cyswllt ar gyfer y ddogfen hon: amrywiaeth@s4c.cymru




GRID
Fy newis i yw gwisgo hijab

GRID Cymro, Saesneg, Nigerian? Pwy ydw i?

GRID Ydy'r byd gamio yn le toxic i ferched?

1. Mae croestoriadedd yn cyfeirio at y syniad bod pawb yn cael profi gwahaniaethu a breintiau gwahanol gwahanol ar sail nifer nodweddion gwahanol eu hunaniaeth, a nid oes unrhyw un yn cael ei ddiffinio gan un nodwedd yn unig.



2. https://llyw.cymru/ystadegau-cydraddoldeb-ac-amrywiaeth-2018-i-2020



Craith

Justin Melluish
fel Glyn

# Adlewyrchu Cymru

## Ein Gweithlu Ni

Rydym am i S4C a'r staff sy'n gweithio inni gynrychioli Cymru heddiw. Rydym wedi cychwyn ar y daith o wella amrywiaeth ein gweithlu a sicrhau bod S4C yn lle cynhwysol ar gyfer ei holl weithwyr a'i darpar weithwyr. Rydym hefyd yn gweithio i wneud yn siŵr bod ein staff presennol ni'n deall ymrwymiadau'r strategaeth yma ac yn medru gweithio a chydweithio mewn ffordd sy'n gynhwysol o bawb.



## Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn:

### Parhau i greu ciplun blynyddol o'n gweithlu

- Adrodd y canlyniadau i Ofcom yn flynyddol fel ein bod yn rhan o ddarlun mwy o sut mae'r sector teledu yn edrych yn y DU, a pharhau i gasglu data ychwanegol lle mae'r angen;
- Gweithio i gynyddu'r gyfradd ymateb i'r holiadur gwirfoddol ymysg staff S4C.

### Denu a chadw staff

- Parhau i ymuno a chydweithio gyda cynlluniau cyflogwyr i ddiweddaru ein prosesau recriwtio er mwyn denu gwell amrywiaeth o ymgeiswyr i swyddi S4C, gan gynnwys swyddi lefel uchel;
- Cymryd camau penodol i gynyddu amrywiaeth wrth recriwtio ac annog pobl o bob cefndir i ystyried S4C a'r diwydiant fel lle gwaith; e.e. drwy ddiweddaru geiriad hysbysebion a ffurflenni cais a drwy hysbysebu'n ehangach ac yn fwy penodol;
- Cyflwyno rhaglen o waith i annog a chefnogi hunan-adrodd ar anabledd, gan gynnwys cyflwyno dogfen 'pasbort addasiad gweithle'.

### Annog diwylliant gwaith ac hyfforddiant cynhwysol

- Parhau i gynnig a hyrwyddo hyfforddiant i staff ar bynciau sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant, yn ogystal â chreu canllawiau mewnol i gefnogi staff i weithio'n gynhwysol (e.e. canllaw hygyrchedd digidol);
- Parhau a datblygu'r rhwydwaith staff Agored, sy'n annog a chynnal trafodaethau am faterion amrywiaeth a chynhwysiant gan gynnwys hefyd sesiynau mewn cyfarfodydd staff gyfan i brif-ffrydio dealltwriaeth;
- Creu pwynt agenda sefydlog rheolaidd am Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chynrychiolaeth mewn cyfarfodydd adran, pwyllgorau a'r Bwrdd.

### Creu Cyfleoedd

- Byddwn yn cefnogi a chreu cyfleoedd i bobl o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli i ddod i weithio yn S4C ac i ymgeisio ar gyfer Bwrdd Unedol S4C drwy gydweithio â phartneriaid a chynlluniau mentora;
- Cefnogi'r Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau bod amrywiaeth llais a phrofiad pan fyddant yn penodi aelodau i Fwrdd Unedol S4C;
- Yn dilyn oedi oherwydd Covid-19, byddwn yn ailgychwyn cynlluniau prentisiaid a phrofiad gwaith yn S4C gan greu cyfleoedd i bobl o gefndiroedd sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli;
- Parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws Cymru ar weithgareddau gyrfaoedd mewn ysgolion ac i annog pobl i ddod i weithio i S4C, ac hyrwyddo'r cyfleoedd hyn.

# Adlewyrchu Cymru

## Y Sector

Yn ogystal â sicrhau cynnydd yn amrywiaeth ei gweithlu ei hun, mae S4C yn annog ac yn cefnogi'r sector cynhyrchu i wella amrywiaeth a chynhwysiant ei gweithlu hefyd.



Curadur
Lemfreck

### Dros y pum mlynedd nesaf bydd S4C yn:

#### Datblygu talent o gefndiroedd sydd ar hyn o bryd wedi eu tangynrychioli

- Datblygu cynllun gyda phartneriaid i ariannu llefydd ar gwrs Darlledu Chwaraeon ar gyfer myfyrwyr o gefndir ethnig sy'n cael ei tangynrychioli yn y sector;
- Parhau i ariannu ysgoloriaethau newyddion a chynllun Hansh Dim Sbin, gan ddatblygu'r pwyslais ar ddenu ceisiadau gan unigolion o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli;
- Parhau i weithio gyda, a chefnogi, partneriaid eraill fel Screen Alliance Wales, It's My Shout, Theatr Genedlaethol Cymru, Llenyddiaeth Cymru ac Urdd Gobaith Cymru er mwyn cynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth yn y sector;
- Bydd S4C yn peilota cynllun prentisiaethau a rennir i leoli prentisiaid cynhyrchu gyda nifer o gwmnïau cynhyrchu ar draws Cymru;
- Gweithio mewn partneriaeth i gyd-ariannu a pharhau i ddatblygu cynlluniau i feithrin awduron newydd sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector ar hyn o bryd;
- Creu ac ariannu cynlluniau i gefnogi datblygiad actorion, cyflwynwyr a thalent ar-sgrin sy'n cael eu tangynrychioli i greu talent y dyfodol;
- Cefnogi cynllun fydd yn rhoi profiad gwaith wedi ei dalu, a hyfforddiant, i bobl o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector gan gynnwys o gefndiroedd economaidd llai breintiedig;
- Parhau gyda chynlluniau sy'n rhoi cyfleoedd i grewyr ifanc o bob cefndir ymarfer a datblygu sgiliau, e.e. Her Ffilm Fer a Medru Hansh.

#### Ymgysylltu a Hyfforddi

- Parhau i gydweithio gyda TAC ar holiadur blynyddol i greu darlun o amrywiaeth y sector; yn ogystal â chydweithio gyda TAC a phartneriaid eraill i gasglu data cyfredol am amrywiaeth a chynrychiolaeth y sector darlledu yng Nghymru;
- Parhau i weithio'n agos gyda TAC ar gynllun hyfforddiant rheolaidd ar gyfer y sector cynhyrchu ar bynciau gwahanol sy'n ymwneud ag amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb, a iechyd meddwl;
- Parhau i blethu blaenoriaethau hyfforddiant S4C gyda'r Strategaeth Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chydraddoldeb fel bod llwybrau penodol iawn i mewn i'r sector i bobl o bob cefndir.

Yr Amgueddfa
Mared Jarman fel Marged



# Adlewyrchu Cymru

## Cynnwys Pawb

**Yn ogystal ag annog a datblygu amrywiaeth ymysg y sector cynhyrchu, mae'n hollbwysig bod cynnwys S4C yn adlewyrchu Cymru.**



DRYCH Dylan a Titw i ben draw'r byd



**Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn gweithio dan y penawdau:**

### Hunaniaeth

- Adlewyrchu amrywiaeth Cymru o fewn brandio ar-sgrin a llais S4C, gan gynnwys cyfeiriadau at ddigwyddiadau neu ddathliadau o bwys i gymunedau Cymru;
- Parhau i wella monitro amrywiaeth cynnwys S4C, gyda'r gobaith o ymuno â chynllun Diamond – y system mae darlledwyr y DU yn ei defnyddio - pan fydd yn gydnaws gyda systemau S4C;
- Parhau i gynnig gwasanaethau mynediad sydd tu hwnt i ofynion sylfaenol Ofcom;
- Cynnal adolygiad cynnwys hanesyddol i sicrhau bod unrhyw ddeunydd S4C sy'n cael ei ail-ddangos yn cael ei gyflwyno gyda rhybuddion perthnasol neu ei dynnu o amserlenni os oes angen.

### Comisiynu

- Bydd y comisiynwyr yn parhau i herio ac annog cynhyrchwyr i greu cynnwys sy'n adlewyrchu Cymru gan gynnwys wrth gastio a dewis cyfranwyr, gan gynnig cefnogaeth benodol gan y Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant pan fydd angen;
- Bydd y Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant yn parhau i gwrdd yn rheolaidd gyda'r comisiynwyr;
- Bydd adolygiad o ganllawiau cynhyrchu S4C, gan adnabod cyfleoedd i ddiweddaru neu greu canllawiau newydd er mwyn hybu amrywiaeth a chynhwysiant wrth gynhyrchu cynnwys Cymraeg;
- Bydd cynllun o waith yn cael ei greu er mwyn paratoi ar gyfer creu cyllid comisiynu wedi'u clustnodi ar gyfer cynnwys sy'n cael ei greu gan, ac yn adrodd straeon gan, unrhyw grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn ein cynnwys ar hyn o bryd;
- Bydd cynllun gwaith yn cael ei greu er mwyn paratoi ar gyfer gosod targedau comisiynu sy'n ymwneud â chynrychiolaeth ar ac oddi ar y sgrin os na fydd cynnydd yn ystod cyfnod y strategaeth.

# Adlewyrchu Cymru

## Arwain a Chydweithio

Mae S4C yn sefydliad Cymraeg pwysig ac felly mae'n hanfodol ei bod hi'n arwain y ffordd o ran gwaith amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb ar draws y sector greadigol a thu hwnt.

**Bydd S4C yn cydweithio ac arwain drwy:**

- Gynnal archwiliad o'r canfyddiadau sydd gan amrywiaeth o gynulleidfaoedd a darpar-gynulleidfaoedd am S4C er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiad cyffredinol sydd o'r sefydliad;
- Parhau i sefydlu a dyfnhau perthynas gydag unigolion a sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau amrywiol Cymru;
- Pwysleisio sicrhau hygyrchedd a chynrychiolaeth pan fydd nosweithiau gwylwyr wyneb-yn-wyneb yn ailgychwyn;
- Cefnogi prosiect ymchwil cof sefydliadol i adnabod pa waith sydd wedi dod o'r blaen i wella amrywiaeth a chynhwysiant mewn darlledu Cymraeg;
- Parhau â phartneriaethau presennol gyda sefydliadau Cymraeg;
- Parhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill ynghylch amrywiaeth a'r Gymraeg;
- Defnyddio'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Chymru Greadigol er mwyn pwysleisio amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb.





JAM

Alun Saunders fel Tina Thitz, Stifyn Parri fel George, a Gareth Evans fel Lola.

# CYSYLLTU GYDAG S4C

## Cysylltwch â ni os ydych yn dymuno fersiwn hygyrch o'r ddogfen: amrywiaeth@s4c.cymru

Fe allwch gysylltu ag S4C yng Nghaerfyrddin, yng Nghaerdydd neu Gaernarfon, dros y ffôn, drwy ebost, Twitter, Facebook, Instagram neu drwy lythyr.

Ebost
s4c@s4c.cymru

Gwifren
0307 600 41 41

Canolfan S4C Yr Egin
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Swyddfa Caerdydd
S4C
3 Y Sgwâr Canolog
Caerdydd
CF10 1FT

Swyddfa Caernarfon
S4C Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

Mae croeso i chi gysylltu ag S4C yn y Gymraeg, ac os byddwch chi'n gwneud hynny byddwn yn ateb yn y Gymraeg ac ni fydd oedi oherwydd hynny.

Sut i wylio S4C
Mae gwasanaeth S4C ar gael ar ystod eang o lwyfannau a dyfeisiau Teledu ac Arlein.

Ar deledu yng Nghymru:
Freeview (4), S4C HD (110)
Sky (104)
Virgin Media TV (104)
Freesat (104)

Yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon:
Sky (134)
Virgin Media TV (166)
Freesat (120)

Arlein ar draws y DU
S4C Clic s4c.cymru/clic/
BBC iPlayer bbc.co.uk/tv/s4c

TikTok

s4c.cymru